

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd 13ddeg Medi 2017 am 7.00 o'r gloch.**

***Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 13th September 2017 at 7.00pm.***

**1. Croeso/Welcome** - Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol. / *Meeting was opened by the Chairperson by extending a warm welcome to everyone in attendance.*

**Presennol/Present** - Cynghorwyr Keith Williams (Cadeirydd), Dafydd Roberts, Delyth Jones, Scott Paterson, Mary Ellis, Alan Owen, Ann Sutton, Carwyn Jones, Marco Ricci a Geraint Parry (Clerc).

**Cyd-ddewis aelod** i lenwi'r swydd wag yn ward Penmon - croesawyd Marco Ricci yn aelod newydd / ***Co-Option of a member*** to fill the vacancy in the Penmon Ward – *Marco Ricci was welcomed as a new member*

**2. Ymddiheuriadau/Apologies:-** Cyng. L Davies, W Hughes ac R Davies

**3. Cofnodion/Minutes**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2ail o Awst fel rhai cywir gan Cyng. S Paterson, eiliwyd gan Cyng. M Ellis. / *Minutes of the previous meeting held on 2<sup>nd</sup> August were accepted as accurate by Clr. S Paterson, seconded by Clr.M Ellis.*

**4. Datgan Diddordeb/Declaration of interest**

- Cyng. D Jones ac M Ellis ar drafodaeth Grŵp Cymunedol oherwydd ei bod yn aelodau o bwyllgor y grŵp. / *Clr. D Jones and M Ellis on the discussion about the Community Group because they are members of the group committee.*
- Cyng. C Jones ar geisiadau cynllunio, oherwydd ei fod eisoes wedi pasio barn / *Clr. C Jones on the planning applications, because he had already passed an opinion.*
- Cyng. C Jones oherwydd ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Llandegfan a bod aelod teulu yn gweithio yn Ysgol Biwmares, mae wedi derbyn gwaharddiad arbennig gan Pwyllgor Safonau i alluogi i gymryd rhan yn ystod y broses yma o'r ymgynghoriad Ysgolion Lleol - nid yn niweidiol / *Clr. C Jones - due to being a School Governor for Llandegfan primary School and a family member works at Beaumaris primary School, has received special dispensation from the Standards Committee to take part during this process of the Local School Consultation - not prejudicial*

**5. Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**

- 5.1 Grŵp Seiriol - Esboniodd y Clerc fod arian gan Grŵp Seiriol wedi ei dderbyn a bod y diffibriliwr a chabinet wedi ei archebu. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir er mwyn cael i'w osod y peiriant ar y wal allanol y Lolfa Gymunedol / *Clerk explained that the Seiriol Group funding had been received and that the Defibrillator and Cabinet had been ordered. Clerk to contact the County Council in order to fit it on the exterior wall of the Community Lounge*
- 5.2 Trefi Taclus - disgwyl gwybodaeth bellach / *Tidy Towns - awaiting further information*
- 5.3 Llwybrau ger Eglwys Penmon sy'n arwain at y Barracks - adroddodd y Clerc ein bod derbyn cais gan y Cyngor Sir i strimmio llwybrau troed o gwmpas yr Eglwys. Cafodd ei dderbyn yn unfrydol i gyflawni'r gwaith / *Clerk reported that we have received a request from the County Council to trim the footpath around the Church. It was unanimously accepted to carry out the work.*
- 5.4 Torri coed ger Warchodfa Natur - Clerc yn disgwyl am ddyfynbrisiau i dorri'r canghennau sy'n hongian dros y ffordd / *Trees by the Nature Reserve - Clerk awaiting quotes to cut the branches over hanging the road.*
- 5.5 Nifer o dyllau ym mynedfa i'r car parc yn Lleiniog wedi ei drwsio / *Number of pot holes in the entrance to the car park at Lleiniog have been repaired.*
- 5.6 Mynegwyd pryder ynglŷn gwirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor Cymuned. Clerc wedi derbyn ymateb gan ein Cwmni Yswiriant – os canfyddir bod y Cyngor yn esgeulus pe bai hawliad, yna bydd y Cyngor yn cael ei gynnwys dan adran atebolrwydd cyhoeddus yn ein polisi / *Concern was raised regarding volunteers doing work on behalf of the Community Council. Clerk has received a response from our Insurance Company - if the Council is found negligent in the event of a claim, then the Council will be covered under the public liability section of our policy.*

- 5.7 Angen torri llwybr arfordirol - Adroddwyd bod y contractwr ar ôl amser ynglŷn â thorri'r Llwybr Arfordirol - dim newyddion pellach / *The Coastal footpath needs cutting - Reported that the contractor is behind schedule regarding the cutting of the Coastal Footpath. No further information*
- 5.8 Mynegwyd pryder nad yw'r glaswellt yn cael ei dorri i fyny at ochr Afon Lleiniog gyferbyn ar hen Tafarn a bod y gingroen ddim yn cael ei drin. Penderfynwyd gofyn i Gerddi Haulfre dorri'r glaswellt, a chytunodd Cyng. A Owen i dynnu'r gingroen / *Concern was raised that the grass is not cut up to the river Lleiniog opposite the Old Tavern and that the ragwort is not treated. It was resolved to ask Haulfre to cut the grass and Clr. A Owen agreed to pull up the ragwort.*
- 5.9 Aelodaeth Pwyllgorau - pwysleisiodd y Clerc yr angen trefnu aelodaeth pwyllgorau eraill nawr bod yna aelodau newydd. Hefyd, mae angen sefydlu tymor swydd y Cadeirydd a'r Dirpwy / *Clerk emphasised the need to establish other committee members now that we have new members. Also, we need to establish the term of office for the Chairperson and Deputy.*
- 5.10 Clerc i ddilyn y mater ynghylch y dŵr sy'n gollwng ar allt Glanrafon gydag Adran Priffyrdd cyn y misoedd gaeaf / *Clerk to follow the issue regarding the water leaking on Glanrafon Hill with the Highways Department before the winter months*
- 5.11 Adroddwyd bod tua 50 o bobl wedi ymuno sesiwn Dwr Cymru yn Neuadd y pentre' ar 30/08/17 ynghylch gwelliannu'r rhwydwaith a chreu tanc storio a dyliau leihau'r risg o ddigwyddiadau llifogydd pellach o'r rhwydwaith yn yr ardal / *It was reported that about 50 people attended the Welsh Water session at the Village Hall on 30/08/17 regarding the improvements to the network and creating a storage tank which should minimise the risk of further flooding incidents from the network in the area.*

## **6. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications**

- 35C286A – Swn y Don, Penmon - cais llawn ar gyfer codi modurdu ar wahan preifat – dim sylwad / *Full application for the erection of a detached private garage – no objection*
- 35C283A - Cae Person Uchaf, Llangoed - cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - dim sylwad / *Full application for alterations and extensions - no objection*

### **Penderfyniad / Decision**

- 35C302A – Ystrad, Llangoed – cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – wedi ei caniatáu / *Full application for alterations and extensions – has been granted*

## **7. Adroddiad gan Cyng. C Jones ac L Davies / Report by Clr. C Jones and L Davies**

- Deallir bod cais cynllunio wedi'i gyflwyno i godi mast ffôn symudol yn Gallows Point / *It is understood that a planning application has been submitted to erect a mobile phone mast at Gallows Point*
- Ymgynghoriad Ysgolion lleol wedi dod i ben ar 31/07/17 / *Local School consultation came to an end on 31/07/17*
- Ymgynghoriad Bysiau - Arriva wedi cynnig gwasanaeth gwell gyda'r amserlen newydd yn cael ei weithredu ym mis Hydref / *Bus consultation - Arriva have offered an improved service with the new timetable to be implemented in October*
- Mae adrodd yn ddyledus ynglŷn â'r Cynllun Gofal Ychwanegol yn Ward Seiriol / *Report due out regarding the Extra Care Scheme in the Seiriol Ward*
- Dal i ymgeisio ar y Grid Cenedlaethol ar gyfer gosod ceblau o dan y ddaear / *Still applying pressure on National Grid for underground cabling*
- Trafodaeth yn digwydd gyda'r Cyngor Sir ynghyn a gwella'r A545 ar hyd Lôn Garth / *Discussion taking place with the County Council regarding improvement to the A545 along Garth road.*
- Dod a ail-cartrefi i ddefnydd - sylwyd bod rhai perchnogion wedi cofrestru eu cartrefi fel busnes ac felly'n derbyn rhyddhad treth / *Bringing second homes into use - it has been noticed that some owners have registered their homes as a business and thus receiving tax relief*
- Cyngor Sir wedi cyflwyno cais am gyllid i liniaru'r llifogydd yn Bae Fryars. Mae'r cais wedi ei wrthod oherwydd na ellir defnyddio arian o'r fath ond i ddiogelu eiddo / *County Council submitted a request for funding to alleviate the flooding at Fryars Bay. The application has been refused because such funding can only be used to protect property*
- Wedi awgrymu croesfan i gerddwyr ar stryd fawr Biwmares / *Have suggested a pedestrian crossing on Beaumaris high street*
- Wedi anfon manylion grant SDF i gefnogi prosiectau cymdeithasol a diwylliannol o fewn AHNE / *Have forwarded details SDF grant to support social and cultural projects within AONB*

- Ymgynghoriad Llyfrgelloedd yn dod i ben / *Libraries Consultation coming to an end*
- Mae Grŵp Llanddona yn gobeithio ail-ddechrau Sioe Poni blwyddyn nesaf / *Llanddona group are hoping to restart the Pony Show next year.*
- Cyngor Sir yn pennu'r gyllideb ar gyfer 2018-19, efallai bydd rhaid torri £8m dros y 3 blynedd nesaf / *The County Council is setting the budget for 2018-19, possibly will have to cut £8m over the next 3 years*
- Ffordd ger Plas Llangoed wedi'i ailwynebu / *Road by Plas Llangoed has been resurfaced*
- Gwrych wrth Pant y Celyn yn tyfu drosodd i'r ffordd / *Hedge by Pant y Celyn is growing over onto the road*
- Tyllau yn y ffordd wrth Tyn Pwll wedi'u hatgyweirio / *Holes in the road by Tyn Pwll have been repaired*
- Ymddengys bod yr arwyddion "dim parcio" ym Mhenmon yn effeithiol / *The "no parking signs" in Penmon seem to be effective*

### **8. Neuadd y Pentre' / Village Hall**

Cynhaliwyd digwyddiad priodas yn ddiweddar yn y Neuadd gyda llawer yn bresennol / *A recent wedding event has taken place at the Hall, with many in attendance*

### **9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group**

- Grŵp 5x60 - cymeroedd dros 50 o blant rhan yn y gweithgareddau dros y gwyliau haf / *5x60 Group - over 50 children took part in the activities over the summer holidays*
- Gwaith wedi dechrau ar adnewyddu'r ystafell newid yn y cae pel-droed / *Work has started on refurbishing the changing room on the Football field*
- Digwyddiad calan Gaeaf i'w gynnal ar 28/10 yn Neuadd y Pentre / *Halloween event to take place at the Village hall on the 28/10*

### **10. Tir Commin / Common Land**

- Penderfynwyd gofyn am gyngor arbenigol ynglŷn â thorri tir comin ger Gorwel a gofyn am gyngor cyfreithiol ar ba gamau pellach y gellir eu cymryd. Hefyd dwedwyd bod rhywun wedi gyrru cerbyd dros y tir comin ac awgrymwyd ein bod yn cael tystiolaeth ffotograffig o hyn. / *It was decided to ask expert advice regarding sympathetic cutting of the common land by Gorwel and seek legal advice on what further steps can be taken. It was reported that a person has driven a vehicle over the common land and was suggested that we obtain photographic evidence of this.*
- Cytunwyd i A Moore trin llysiâu'r dial ar y tir comin / *It was agreed for A Moore to treat the Japanese Knotweed on the common land*

### **11. Siediau Dynion / Mens Sheds**

Oherwydd bod y dyddiad ein cyfarfod wedi ei ail-drefnu, ni allai'r Grŵp fynychu y tro yma / *Because the date of our meeting was rearranged, the Group were unable to attend on this occasion*

### **12. Cyfrifon / Accounts**

Awdit Blynnyddol 2016/17 - dychwelyd yr archwiliad heb unrhyw faterion yn codi. Cymeradwywyd y ffurflen gan y Cyngor Cymuned / *Annual Audit 2016/17 - was returned with no matters arising. Annual return was approved by the Community Council*

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- Rhodd i Canolfan hamdden Biwmaris / *Beaumaris leisure Centre donation - £700.00*
- Yswiriant Blynnyddol 2017/18 / *Annual Insurance - £931.31*

### **Incwm / Income**

- Grant Grŵp Seiriol / *Seiriol Group Grant - £1,300.00*
- Precept - £3,368.00

### **13. Gohebiaeth / Correspondence**

- Un Llais Cymru - cyfarfod 5/10/17 / *One Voice Wales - meeting 5/10/17*

### **14. UFA/AOB:**

14.1 Adroddwyd bod Bont y Rhyd wedi cael ei daro gan gerbyd ar ochr Haulfre / *It has been reported that Bont y Rhyd has been hit by a vehicle on the Haulfre side*

- 14.2 Nodwyd bod mast ffon symudol newydd wedi'i godi ar Fferm Llanfaes / *It was noted that the new mobile phone mast has been erected at Llanfaes Farm*
- 14.3 Cytunwyd yn unfrydol i'r cais gan berchennog Fferm Marian i dorri'r llystyfiant yn ôl hyd at 1 medr bob ochr i'r ffordd am y flwyddyn hon / *It was unanimously agreed to the request from the owner of Marian Farm to cut back the vegetation for up to 1 meter either side of the right of way, for this year*
- 14.4 Codwyd pryder ynghylch faint o falurion sydd yn yr afon gyda gaeaf yn nesáu. Ystyriwyd mai cyfrifoldeb NRW oedd hyn / *Concern was raised about the amount of debris in the river with winter approaching. It was considered that the responsibility was to approach NRW*
- 14.5 Codwyd pryder ynghylch cyflwr y ffordd ger Tan Ffordd, gan fod yr gwyneb wedi gwisgo lawr i'r sylfaen / *Concern was raised about the condition of the road by Tan Ffordd, in that the surface has worn away revealing the base*
- 14.6 Derbyniwyd cais gan yr Ysgol am arian tuag at gyngerdd y Nadolig / *Request has been received by the School to donate money towards the Christmas concert*
- 14.7 Derbyniwyd gwybodaeth gan berchennog 1 Pen y Berth bod rhywun wedi chwistrellu lladdwr chwyn ar y tir comin ger eu heiddo - dim gwybodaeth bellach / *Received information from the owner of 1 Pen y Berth that somebody has sprayed weed killer on the common land near their property - no further information*
- 14.8 Codwyd pryder ynghylch cyflwr tu mewn i gysgodfa'r bysiau ym mhont y Rhyd / *Concern was raised about the condition inside the Bus Shelter at Bont y Rhyd*
- 14.9 Dywedwyd bod y bocs Halen a ddefnyddir ar gyfer y ffordd ger fferm Bryn Mawr wedi'i difrodi. Awgrymwyd hefyd i ofyn am focs arall yn Teras Coedwig / *It was reported that the Salt container used for the road in Bryn Mawr Farm is damaged. It was also suggested to request another box situated in Coedwig Terrace*
- 14.10 Trafodwyd adroddiad ROSPA ar gyfer Maes Chwarae Plant, adroddwyd bod yr ardal yn risg isel yn gyffredinol / *The ROSPA Children Play Area report was discussed, area was reported an overall low risk*
- 14.11 Dywedwyd bod llawer o drafferth wedi bod yn ddiweddar ar y bys i'r Ysgol Uwchradd / *It was reported that there has been a lot of trouble lately on the school bus to the Secondary school*
- 14.12 Gofynnwyd a fyddai bosib cael drych traffig ar y ffordd a lleolir wrth y warchodfa bws ym Mhenmon, er mwyn cynorthwyo i weld y traffig yn dod lawr o Teras Ysgol? / *Would it be possible to have a road traffic mirror situated by the bus shelter in Penmon, in order to assist with seeing the traffic coming down from School Terrace?*
- 14.13 Y rhybudd "ARAF" sydd wedi ei beintio ar y gornel Cartref wedi ei osod mewn sefyllfa beryglus i feicwyr modur / *The "SLOW" painted warning by Cartref corner has been placed in a position that is dangerous to motorcyclist*

**15. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:35 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 04/10/17

*There was no further business to discuss. The Chairperson thanked everyone for their contribution. Meeting came to an end at 9:35pm. Next meeting 04/10/17*

Llofnod y Cadeirydd/Signature

Dyddiad/Date